CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 28ain o Ebrill 2025 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.**

Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, William RP Jones ynghyd a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts.

Roedd ymddiheuriad gan Cyng Rhys Williams a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd)
Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.
Aethpwyd ymlaen i gael adroddiad gan Cyng Alwyn Roberts am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor dros y flwyddyn 2024-25.
Adroddodd fod y Cyngor wedi sicrhau bod arian y trethdalwyr yn cael ei weinyddu yn gywir ac effeithiol. Ymatebwyd i faterion etholwyr drwy'r flwyddyn.
Prif fater y flwyddyn oedd trefniadau gyda'r Gardd Goffa, a'r gwaith bellach wedi ei gwbwlhau. Diolchodd yn fawr iawn I bawb am eu gwaith gwirfoddol a'u hymroddiad.
Cyfranwyd i achosion lleol, ac ymatebwyd I geisiadau cynllunio. Hefyd gofalwyd am y toiledau, a llwybrau'r ardal.
Roedd y Cyng Rhys Williams wedi ymuno efo'r Cyngor yn ystod y flwyddyn aeth heibio.
Diolchwyd yn fawr iawn i bawb..

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fawrth** ar gynnig Cyng.William Davies a'i eilio gan Cyng Lona Harris.

4. **Materion yn codi.**

a) Neuadd Llanegryn – adroddodd Cyng Eurgain Davies o'r cyfarfodydd diweddaraf, a'r gweithgarwch yno

b) Gardd Goffa – nodwyd y diweddaraf, a'r materion canlynol;

- **Agoriad swyddogol** - Cadarnhwyd y byddai hyn ar **Nos Wener 20fed Mehefin am 5yh –** a bod Mabon ap Gwynfor AS wedi cytuno i fod yn bresennol. Cytunwyd ar restr o unigolion y byddai'r Clerc ac aelodau eraill o'r Cyngor yn cysyllu a hwy i'w gwahodd yn unigol. Gwelwyd y dylid ei wneud yn ddigwyddiad cyhoeddus, a thê/coffi ar gael wedyn yn y Neuadd. Hefyd cerdded i lawr i'r Neuadd o'r Ardd Goffa. Byddai'r Clerc yn cadarnhau wrth Rhys Bleddyn i gael y plac wedi ei gwbwlhau i'w roi ar y garreg.

- **Gwaith hau hadau/ plannu blodau** – diolchwyd i bawb am eu gwaith dros yr wythnosau diwethaf.

- **Rheolau claddu llwch** – trafodwyd hyn unwaith yn rhagor, a gofynnwyd a oedd modd cael cadarnhad yn ysgrifenedig fod pob dim yn iawn i chwalu llwch mwy nag un person o'r amlosgfa ar yr un safle - gan bod y safle hwn yn gyhoeddus.

- Nodwyd fod stwmp coeden angen ei glirio o'r llwybr ger yr Ardd, a bydai'r Clerc yn cysylltu gyda Gwyn Evans.

c) **Llwybr sy'n arwain at y cae chwarae** – adroddwyd y cefndir a'r gohebiaeth diweddaraf oedd wedi ei ddanfon allan i bawb. Penderfynwyd ceisio cael cyfarfod ar y safle gyda Gwyn Evans o Gyngor Gwynedd, a gwahoddiad i gael perchennog y ty cyfagos yno hefyd

d) **Llywodraethwyr Ysgol Craig yr Aderyn** – nodwyd cais am gynrychiolydd, a phenderfynwyd gofyn i'r Cyng Rhys Williams.

e) **Toiledau Llanegryn** - roedd y gwaith ei angen yno wedi ei gwbwlhau, a diolchwyd i bawb oedd wedi trefnu hyn.

5.**Ethol Swyddogion 2025-26.**

Ar gynnig Cyng WRP Jones a'i eilio gan Cyng Eurgain Davies, cytunwyd yn unfrydol ar enw **Cyng Alwyn Roberts yn Gadeirydd am 2025-26 a'r Cyng Lona Harries yn Is-gadeirydd am 2025-26.**

6. **Penderfynnu ar delerau a chostau Clerc am 2025-26.**
Cadarnhawyd i barhau yr un ffigurau, sef cyflog o £2000 a chostau o £500.
(Gadawodd y Clerc yr ystafell pan benderfynwyd hyn)

7.**Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Llanegryn ar gyfer 2025/26**

Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol – Nos Fercher 11/06/25, Nos Wener 20/06/25 (Agor Gardd Goffa) , Nos Lun 28/07/25, Nos Lun 29/09/25, Nos Lun 24/11/25, Nos Lun 26/01/26, a Nos Lun 23/02/26, a byddai'r Clerc yn eu rhoi ar y wefan.

8. **Derbyn ffurflenni cofrestr buddiannu gan y Cynghorwyr –** cafodd pawb gyfle i'w llenwi, a byddent yn cael eu rhoi ar y wefan.

   **Mabwysiadu y Cod Ymddygiad ar gyfer 2025-26** – (dosbarthwyd gopi caled er gwybodaeth pawb, ac roedd copi wedi ei ddanfon i bawb ar e-bost)

Ar gynnig Cyng WRP Jones a'I eilio gan Cyng William Davies, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y cod ymddygiad ynghyd a'r canlynol;

**Rheoliadau ariannol a rheoliadau sefydlog**

**Asesiad risg cyffredinol y Cyngor a'r Ardd Goffa** (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw I'r Cynghorwyr)

**Cofrestr asedau** – cadarnhawyd y ffigwr o £40,000, sef ar gyfer y toiledau a'r Ardd Goffa.

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth** ( sydd oll ar wefan y Cyngor)

9. **Cynrychiolaeth ar fudiadau allanol** – cadarnhawyd enw Cyng Lona Harris ar bwyllgor Meirionnydd o Un Llais Cymru, a Cyng Eurgain Davies ar Bwyllgor Neuadd Llanegryn.
10. **Materion Cynllunio**

**NP5/64/195 – Gosod pwmp gwres ffynhonell aer yn 32 Maesegryn, Llanegryn.**

Nodwyd fod hwn eisoes wedi ei ddosbarthu a'r Cynghorwyr, ac roedd pawb yn gefnogo ir cais.

11. **Materion Cyllid.**

a) **Cyfrifon 2024-25** - roedd y cyfan wedi eu paratoi gan y Clerc - cyflwynwyd yr holl ddogfennau, cofnodion, y fantolen, Datganiad Blynyddol, ac adroddiad yr Archwilydd Mewnol yn ffurfiol i'r Cynghorwyr. Byddai'r hysbyseb yn ymddangos i'r cyhoedd, gyda chopi ar y wefan maes o law. Roeddynt eisoes wedi bod trwy law yr Archwilydd mewnol, ac nid oedd unrhyw ymholiadau.

Un mater a godwyd gan yr Archwilydd mewnol oedd yr angen i gael dogfennau tendr/dyfynbrisiau ar gyfer gwariant yr Ardd Goffa. Roedd y Clerc wedi egluro fod y prosiect ymlaen ymhell cyn iddo gael ei benodi yn Ebrill 2024. Dywedodd y Cynghorwyr fod yna hybysebu helaeth wedi bod ymlaen, ond bod trafferth mawr cael neb i wneud y gwaith, ac mai cwmni GT Davies Ltd oedd yr unig un a diddordeb. Hefyd roedd cais wedi ei wneud I'r Pensaer Spencer Pugh, a oedd wedi ymateb yn dweud yr un peth. Gyda'r wybodaeth yma, roedd y ddau Archwilydd mewnol yn gwbwl hapus efo'r sefyllfa.

b) **Mandate y Banc** – nodwyd fod angen ail-arwyddo, a dosbarthwyd i'r Cynghorwyr. Byddai'r Clerc yn ei roi i fanc HSBC diwrnod canlynol.

c) **Anfonebau i'w talu** – ar gynnig Cyng Catrin Rutherford a'i eilio gan Cyng Lona Harris, cytunwyd ar y canlynol;

- Archwilio Cymru - ffioedd 22/23 (£421) a 23/24 (£200)
- CR Plumbing – gwaith yn toiledau Llanegryn - £407.80
- Neuadd Llanegryn (ar gyfer llogi i gyfarfodydd y Cyngor) - £180

d) Ystyried unrhyw geisiadau am arian

- Ambiwlans Awyr Cymru – nid oedd diweddariad am sefyllfa yr Adolygiad Barnwrol, ac felly penderfynwyd gadael hyn am y tro.

**12. Gohebiaeth.**

a) Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru – nodwyd nad oedd dyddiadau i law. Cadarnhawyd fod y cynllun hyfforddiant ar y wefan.

b) Gwasanaeth bysiau yn Llanegryn – roedd e-bost gan Cyng Beth Lawton wedi ei rannu i bawb, a diolchwyd am ei gwaith efo hyn. Darllenwyd lythyr gan LLywela Hughes o Dy'r Ysgol yn mynegi cwyn am hyn eto. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Cyng Beth Lawton.

c) Cronfa Huw Owen - roedd 4 o geisiadau i law. Dosbarthwyd copiau, ac ar ol trafodaeth, cytunwyd fod pawb hyn gefnogol. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Robert John Roberts o Gyngor Gwynedd.

d) Ymgyrch Sian Gwenllian i gael Ysgol Ddeintyddol ym Mangor – cadarnhawyd gefnogaeth y Cyngor Cymuned.

13. **Unrhyw fater arall.**

Adroddwyd fod angen eglurhad o bwy sy'n medru parcio yn Maes Parcio y Rhos yn Llanegryn.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS FERCHER 11eg o Fehefin 2025 , 7.30y.h.**

Minutes of the Council's Annual Meeting held on Monday evening the 28th of April 2025 at 7.30pm in the Hall, Llanegryn.

Present; Cllr. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, William RP Jones together with Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Alwyn Roberts.

There was an apology from Cllr Rhys Williams and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council)

Expressions of interest were invited for issues on the agenda. There were no statements.

We proceeded to get a report from Cllr Alwyn Roberts about the Council's priorities, activities and achievements over the year 2024-25.

He reported that the Council had ensured that the taxpayers' money was administered correctly and effectively. Constituent issues were responded to throughout the year.

The main issue of the year was arrangements with the Memorial Garden, and the work has now been completed. He thanked everyone very much for their voluntary work and dedication.

Contributions were made to local causes, and planning applications were responded to. The toilets and the paths in the area were also taken care of.

Cllr Rhys Williams had joined the Council during the past year.

He gave his thanks to everyone for their support.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 4th of March were confirmed on the proposal of Cllr. William Davies and seconded by Cllr Lona Harris.

Matters arising.

a) Llanegryn Hall - Cllr Eurgain Davies reported on the latest meetings, and the activity there

b) Memorial Garden - the latest, and the following issues were noted;

• Official opening - It was confirmed that this would be on Friday 20th June at 5pm - and that Mabon ap Gwynfor AS had agreed to be present. It was agreed on a list of individuals that the Clerk and other members of the Council would contact to invite them individually. It was seen that it should be made a public event, with tea/coffee available afterwards in the Hall. Also a walk down to the Hall from the Memorial Garden. The Clerk would confirm with Rhys Bleddyn to have the plaque completed to be placed on the stone.

• Seed sowing/flower planting - everyone was thanked for their work over the past few weeks.

• Ash burying rules - this was discussed once more, and it was asked if it was possible to get confirmation in writing that everything is OK to disperse the ashes of more than one person from the crematorium on the same site - as this site is public.

• It was noted that a tree stump needed to be cleared from the path near the Garden, and the Clerk would contact Gwyn Evans.

c) The path that leads to the playing field - the background was given and the latest correspondence that had been sent out to everyone. It was decided to try to have a meeting on the site with Gwyn Evans from Gwynedd Council, and an invitation to have the owner of the neighboring house there as well

Governors of Ysgol Craig yr Aderyn - a request for a representative was noted, and it was decided to ask Cllr Rhys Williams.

e) Llanegryn Toilets - the work needed there had been completed, and thanks were given to everyone who had organized this.

5. Election of Officers 2025-26.

On the proposal of Cllr WRP Jones and seconded by Cllr Eurgain Davies, it was unanimously agreed to name Cllr Alwyn Roberts as Chair for 2025-26 and Cllr Lona Harries as Vice-chair for 2025-26.

6. To decide on Clerk's terms and costs for 2025-26.

It was confirmed to continue the same figures, namely a salary of £2000 and costs of £500.

(The Clerk left the room when this was decided)

7. To confirm the dates of the remaining Llanegryn Council meetings for 2025/26

The following dates were confirmed - Wednesday 11/06/25, Friday 20/06/25 (Opening of Memorial Garden), Monday 28/07/25, Monday 29/09/25, Monday 24/11/25, Monday 26/01/26, and Monday 23/02/26, and the Clerk would put them on the website.

8. Receive benefit register forms from the Councilors - everyone had the opportunity to fill them in, and they would be put on the website.

Adoption of the Code of Conduct for 2025-26 – (a hard copy was distributed for everyone's information, and a copy had been sent to everyone by email)

On the motion of Cllr WRP Jones and seconded by Cllr William Davies, and with everyone's agreement, the code of conduct was adopted together with the following;

Financial regulations and standing regulations

General risk assessment of the Council and the Memorial Garden (which had been distributed in advance to the Councillors)

Asset register – the figure of £40,000 was confirmed, namely for the toilets and the Memorial Garden.

The other policies were also adopted - concerns and complaints, equal opportunities, environmental, biodiversity, data protection and freedom of information (all of which are on the Council's website)

9. Representation on external organizations - the name of Cllr Lona Harris was confirmed on the Meirionnydd committee of Un Llais Cymru, and Cllr Eurgain Davies on the Llanegryn Hall Committee.

10. Planning Matters

NP5/64/195 – Installation of an air source heat pump at 32 Maesegryn, Llanegryn.

It was noted that this had already been distributed to the Councillors, and everyone supported the application.

11. Finance Matters.

a) Accounts 2024-25 - all had been prepared by the Clerk - all documents, minutes, the balance sheet, Annual Statement, and the Internal Auditor's report were formally presented to the Councillors. The advertisement would appear to the public, with a copy on the website in due course. They had already been through the Internal Auditor, and there were no inquiries.

One issue raised by the internal Auditor was the need to obtain tender documents/quotations for the expenditure of the Memorial Garden. The Clerk had explained that the project was on long before he was appointed in April 2024. The Councilors said that there had been extensive advertising, but that there was great difficulty in getting anyone to do the work, and that the company GT Davies Ltd was the only one interested. Also a request had been made to the Architect Spencer Pugh, who had responded saying the same thing. With this information, the two internal Auditors were completely happy with the situation.

b) The Bank's Mandate - it was noted that re-signing was necessary, and it was distributed to the Councillors. The Clerk would give it to HSBC bank the following day.

c) Invoices to be paid - on the proposal of Cllr Catrin Rutherford and seconded by Cllr Lona Harris, the following was agreed;

• Audit Wales - fees 22/23 (£421) and 23/24 (£200)

• CR Plumbing - work in Llanegryn toilets - £407.80

• Llanegryn Hall (for hire for Council meetings) - £180

d) Consider any requests for money

• Cymru Air Ambulance – there was no update on the situation of the Judicial Review, and so it was decided to leave this for now.

12. Correspondence.

a) Un Llais Cymru training dates - it was noted that no dates were available. It was confirmed that the training plan is on the website.

b) Bus service in Llanegryn - an email from Cllr Beth Lawton had been shared with everyone, and she was thanked for her work with this. A letter was read from LLywela Hughes from Dy'r Ysgol expressing a complaint about this again. The Clerk was asked to contact Cllr Beth Lawton.

c) Huw Owen Fund - 4 applications were received. Copies were distributed, and after discussion, it was agreed that everyone was supportive. The Clerk would contact Robert John Roberts of Gwynedd Council.

d) Sian Gwenllian's campaign to have a Dental School in Bangor - the support of the Community Council was confirmed.

13. Any other matter.

It was reported that clarification is needed as to who can park in Maes Parcio y Rhos in Llanegryn.

DATE OF NEXT MEETING;  LLANEGRYN HALL WEDNESDAY 11th June 2025, 7.30 p.m.